

Cofion a Chyfarchion

- Cofiwn yn ein gweddïau heddiw am Gwenfyl Lloyd (Peniel) sydd wedi cael anffawd i'w ffêr, yn ogystal â'r rhai hynny sydd heb fod yn dda eu hiechyd y dyddiau hyn. Cyflwynwn hwy oll yn dyner i ofal yr Arglwydd.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Miss W J Roberts a Mrs Menna Owen (Yr Hen Ddeondy); Mr R. J. Davies (Amber House); a Mrs Morfydd Williams (Southern House). Hyderwn eu bod yn profi gofal a grym ein gweddïau drostynt.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i John David Williams (Groes) sydd newydd ddathlu pen-blwydd arbennig!

I ddod

- **Christian Viewpoint** yn cyflwyno 'Hedfan gyda'r adar' – sgwrs ac arddangosfa o lyfrau, lluniau a chardiau gan Philip Snow, arlunydd adar, ysgrifennwr a chreadydd, nos Lun, Mehefin 10fed am 7.30 yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel. £3 yn cynnwys bwffe. Croeso i ddynion a merched!
- **Diwrnod/Penwythnos Genod 15+** yng Ngholeg y Bala, Mehefin 14eg–15fed. Nos Wener: Cath Woolridge & SOW – noson o gerddoriaeth, tystiolaeth a chymdeithas. Dydd Sadwrn: Diwrnod i ymlacio, mwynhau cymdeithas ac i ddysgu am yr Iesu yng nghwmni Sarah Morris. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru: colegybala@ebcpcw.org.uk / 01678 520565. Cost: £40 am y nos Wener a dydd Sadwrn fydd yn cynnwys gwely a brecwast a chinio dydd Sadwrn, neu £25 am y dydd Sadwrn yn unig fydd yn cynnwys cinio ym Mhlas yn Dref.
- **Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg** ym Mangor Mehefin 20fed-22ain. Mwy o fanylion i ddilyn.
- **Ysgol Haf y Weinidogaeth Iacháu** yn dathlu 60 ar Mehefin 24ain–26ain yng Nghanolfan Cefn Lea, Dolfor, Y Drenewydd SY16 4AJ. Cysylltwch â Marian Lloyd Jones, Gwylfa, Allt-Tŷ-Gwyn, Rhosllannerchrugog, Wrecsam LL14 1EL / geraint.w.jones@btinternet.com am fwy o wybodaeth.
- **Diwrnod Arbennig i Flaenoriaid** a drefnwyd gan yr Adran Hyfforddiant ac Ymgeiswyr yng Nghapel Tegid, Y Bala dydd Sadwrn, Mehefin 29ain. Bydd cyfle yn y bore i drafod, gyda'r Parch Judith Morris, ffyrdd o ddal gafael ar aelodau a denu yn ôl rai a giliodd o'r oedfaon. Yn y pwn, bydd rhai o'r blaenoriaid yn ffurfio panel a cheir cyflwyniadau byrion ar amrywiol bynciau perthnasol i flaenoriaid. Gan fod cinio yn cael ei ddarparu gan arlwywyr, gofynnir i chi ymateb **erbyn Mehefin 20fed** os am fynychu. (Cysylltwch â Mair neu gallwch e-bostio rhian.h@hotmail.co.uk.)

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 2^{il} Mehefin 2013

Darlleniad y Dydd

Ioan 2:13–22

(BCND tud.101 / BCN: tud.93)

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Bore da! Gweddiwn am fendith Duw wrth i ni addoli'n Harglwydd Iesu heddiw. Addoli Duw hefo'n gilydd ydi nod a phinacl y bywyd Cristnogol ond y mae addoli yn golygu gwneud rhai pethau annisgwyl! Addoli oedd i fod i ddigwydd yn y Deml yn Jerwsalem. Ond yn yr hanes heddiw gwelwn nad felly roedd hi gan fod pobl wedi troi'r Deml yn ogof lladron! Sylwn ar Iesu'n adfer y Deml i'w iawn bwrpas gan droi byrddau'r cyfnewidwyr arian mewn dichter cyfiawn a chyhoeddi mai tŷ gweddi oedd tŷ ei Dad. Mae i bob gwir addoliad felly sêl – sêl dros enw Duw a'i gyfiawnder, yn ogystal â phlygu glin a gweddiö neu ganu emynau. Wrth feddwl am hyn gwelwn hefyd y gall sêl dros Dduw a thros wneud yr hyn sydd yn iawn greu adwaith gas mewn pobl. Dyma oedd profiad Iesu a dyma yw profiad ei ddisgyblion ar hyd y cenedlaethau.

Bydd aelodau'r G8 yn cyfarfod ym Melfast y mis nesa a bwriad yr ymgyrch OS ydi galw arnynt i gael cyfnewidwyr arian ein dydd ni, sef y cwmnïau mwyaf eu helw sy'n osgoi talu trethi, i dalu'r trethi dyladwy a thrwy hynny gynorthwyo'r tlawd. Mae'r weithred yma – sy'n galw am gyfiawnder – yn rhan o ufudd-dod ac addoliad Cristnogion. Wrth weithredu mewn sêl fel hyn ac fel y gwnaeth Crist, maent yn rhoi addoliad i Dduw oherwydd y mae Duw yn gofyn i ni sefyll ochr yn ochr hefo'r tlawd a'r distadl (Eseia 58: 6-9).

Diolch i Gymorth Cristnogol ac eraill am drefnu'r ymgyrch. Mae manylion pellach am amseroedd a lleoliadau'r protestio ar eu gwefan www.christianaid.org.uk/cymru

Ystyriwn, fel rhan o'n haddoliad ni, sut y medrwn ninnau gefnogi'r ymgyrch. Y mae enwad yr Annibynwyr a'r Presbyteriaid wedi ymrwymo iddi eisoes.

Wrth feddwl ymhellach am yr hyn sy'n annisgwyl mewn addoliad gweddiwn y cawn ninnau ein harwain i sefyll ochr yn ochr hefo'n gilydd yn ein treialon ac hefo'r tlawd yn eu hangen.

Wedi iddo "lanhau'r" deml dywedodd Iesu y byddai teml ei gorff yn cael ei dinistrio ac yna, mewn tridiau, ei hadfer. Dim ond ar ôl iddo gyfodi o farw'n fyw ar y trydydd dydd y bu i'r disgyblion gofio i Iesu ddweud hyn, credu'r Ysgrythur, 'a'r gair yr oedd Iesu wedi ei lefaru.' (2:22) Gwelwn felly fod yna lawer mwy iddi na dim ond gweithredu dros gyfiawnder. Mae cred yn yr Ysgrythur a'r geiriau a lefarodd Iesu, cred yn ei atgyfodiad, a gweld ei ogoniant yn ganolog i ddatblygiad ffydd y disgyblion. Y pethau hyn hefo'i gilydd sy'n gwneud addoliad cyflawn er gogoniant Duw.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Andras Iago, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
- **Cwrs Rhianta** yn y Granar, Llansannan am 7.30 dan arweiniad Sian Edwards ac Elinor Owen.
- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Taith Haf 2013 y mudiad Care for the Family – **“Getting your kids through church without them ending up hating God”** yng nghwmni Rob Parsons yn Eglwys Sure Hope, Bae Colwyn am 7.30.
- Mercher • **Adnabod Addoli** yn Festri Llansannan am 8.00.
- Gwener • **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sadwrn • **Diwrnod Dynion (15+)** “Dafydd: Y Da, y Drwg a'r Erchyll” yng Ngholeg y Bala. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru: colegybala@ebcpcw.org.uk / 01678 520565. Cost: £25 yn cynnwys cinio.
- Sul nesaf • **Cymanfa Ganu Annibynwyr Dyffryn Clwyd** yng Nghapel Pendref, Rhuthun am 2.30. Cymanfa o emynau plant ac oedolion o Ddetholiad 2012-13. Arweinydd: Nia Evans, Llangefni. Croeso cynnes i bawb.
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00 pryd y byddwn yn cael adolygiad o'r gyfres a gafwyd ar Datguddiad.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Andras Iago yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn dod i'r oedfa yn Llanfair i gynnal pleidlais er mwyn ethol blaenoriaid newydd. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith **yng Nghefn Meiriadog** (SYLWCH AR Y NEWID) am 10.30 a bydd yr Ysgol Sul am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron a Pheniel am 10.00.
- Sul nesaf Bydd aelodau Capel Peniel yn mynd ar bererindod i Lasynys, Talsarnau. Mae trefniadau Saron eto i'w cadarnhau.

Cyhoeddiadau

Llansannan

- Sul yma Bydd y Parch Irfon Parry yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd y Parch Irfon Parry yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00 gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yn Henllan.
- Sul nesaf Bydd y Parch Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith **yng Nghefn Berain** am 2.00 (SYLWCH AR Y NEWID). Yn ystod yr oedfa, bydd Celyn Elisa, merch fach Dyfrig a Jannine Poletti-Hughes yn cael ei bedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Gwener Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith **yn Llanefydd** am 2.00 (SYLWCH AR Y NEWID). Yn ystod yr oedfa, bydd Siwan Elin, merch fach Delyth a Matt yn cael ei bedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, trwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu lesu, a chyrraedd ein cymunedau.